CRYNODEB CYFARFOD
Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Tachwedd 3ydd 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Gwenda Evans (cadeiryddes), Eilir Rowlands, Rita Jones, Dewi Pritchard, Bethan Thomas, Eifion Davies, Alwyn Jones, Gwenda Morris, Iolo Evans, Gwynedd Jones, Gary Thomas, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Darllenwyd llythyr a dderbyniwyd gan Meilir Jones yn egluro ei ddymuniad i ymddiswyddo o'r Cyngor. Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr i ddiolch iddo am ei ymroddiad yn ystod ei gyfnod ar y Cyngor. Cytunwyd i hysbysu Cyngor Gwynedd am y sedd wag.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Hydref 6fed 2026) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro – B4402 Llandderfel, 16/11/26.
ii) Rhaglen waith yr Adran Priffyrdd.

b) Un Llais Cymru.
i) Nodiadau Datblygu Ymarfer 8 & 30.
ii) Canllawiau ar Gydymffurfio — Help i atal camgymeriadau cyflog a thaliadau sy'n destun anghydfod o dan system RTI PAYE.

c) Amrywiol.
i) Cais gan deulu lleol i osod mainc ym mynwent Llandderfel. **Cytunwyd i ganiatau hyn ac i'r clerc drafod y trefniadau gyda'r teulu.**

v) Ceisiadau Cynllunio.
PEDW - DNS/3276735 - Fferm Wynt Gaerwen - Hysbysiad o weithdrefn i gyflwyno'r wybodaeth i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt wneud penderfyniad ar y cais.

vi) Materion Ariannol
a) Taliadau.
Cytunwyd i dalu – Un Llais Cymru (cwrs arlein)

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth Rhagfyr 1af yn Neuadd Mynach.